LLYTHYR GAN GADEIRYDD Y BWRDD A'R PRIF WEITHREDWR

Caiff ein gwaith ei ysgogi gan angerdd ac uchelgais Eu Huchelderau Brenhinol, Tywysog a Thywysoges Cymru, a chaiff ei adeiladu ar ymchwil o'r radd flaenaf a chydweithrediad agos gyda rhwydwaith o bartneriaid er mwyn meithrin, treialu, cyllido ac ehangu rhaglenni.

Yn 2023, ar draws amrywiaeth o raglenni hen a newydd, aeth y Sefydliad Brenhinol i'r afael â rhai o'r materion mwyaf mewn cymdeithas, yn y wlad hon ac yn rhyngwladol, gan esgor ar newid cynaliadwy cadarnhaol trwy gyfrwng atebion arloesol ac optimistaidd. Buom yn fwy uchelgeisiol nag erioed o'r blaen, gan ddwyn ynghyd y meddyliau gorau a mwyaf deallus o blith y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r sector elusennol i gyflawni prosiectau sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl a chymunedau.

Roedd uchafbwyntiau'r flwyddyn yn cynnwys lansio Homewards, sef rhaglen bum mlynedd drawsnewidiol y Sefydliad sy'n anelu at ddangos bod modd rhoi diwedd ar ddigartrefedd. Mewn chwe lleoliad yn y DU, mae Homewards yn dwyn ynghyd bartneriaid a phobl leol a chanddynt brofiad bywyd o ddigartrefedd, gyda'r nod cyffredin o sicrhau y bydd digartrefedd yn rhywbeth prin, byr, na chaiff ei ailadrodd.

Mae Homewards yn dangos gallu'r Sefydliad Brenhinol i ddwyn ynghyd gannoedd o bobl a sefydliadau ar draws y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol er mwyn creu cynghreiriau lleol a all gyflawni rhaglenni arloesol sy'n ysbrydoli ac yn ysgogi newid. Bydd y cynnydd a wnaed gan Homewards hyd yn hyn yn cael ei gyflwyno mewn rhaglen ddogfen ddwy ran ar ITV, y dechreuwyd ei ffilmio yn 2023, a bydd y rhaglen yn dilyn y prosiect am y 12 mis cyntaf.

Mae gwaith a wnaed gan Ganolfan y Blynyddoedd Cynnar wedi tynnu sylw at y modd y mae'r Sefydliad yn newid canfyddiadau'r cyhoedd ac yn gweithio'n adeiladol gyda busnesau a sector y Blynyddoedd Cynnar. Lansiwyd Shaping Up ym mis Ionawr 2023; dyma ymgyrch hirdymor sy'n anelu at godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd unigryw datblygiad plentyndod cynnar trwy newid a llywio canfyddiadau'r cyhoedd ynglŷn â'r mater.

Ymhellach, sefydlodd y Ganolfan yr hyn a elwir yn Dasglu Busnes y Sefydliad Brenhinol ar gyfer Plentyndod Cynnar. Llwyddodd y Tasglu i ddwyn ynghyd wyth o fusnesau mwyaf y DU er mwyn blaenoriaethu plentyndod cynnar, gan arwain at gyhoeddi adroddiad 'achos dros newid' a lansio nifer o fentrau ymarferol, gan gynnwys prosiect ymchwil mewn partneriaeth â Phrifysgol Rhydychen a'r GIG lle llwyddodd ymwelwyr iechyd i dreialu offeryn sgrinio arloesol i wella cydberthnasau a rhyngweithio rhwng rhieni a babanod.

Mae un o'n rhaglenni hwyaf ei pharhad, sef United for Wildlife, yn dwyn ynghyd fwy na 400 o aelodau a phartneriaid sy'n ymhél â gorfodi'r gyfraith, cyllid, trafnidiaeth a meysydd eraill, i weithio gyda'i gilydd i roi diwedd ar y fasnach anghyfreithlon mewn bywyd gwyllt. Wrth i'r rhaglen symud i'w hail ddegawd, rydym yn ymfalchïo yn y presenoldeb byd-eang a adeiladwyd ganddi a'r effaith mae wedi'i chael. Parhaodd y momentwm i adeiladu yn 2023 pan gynorthwyodd y rhaglen i hyfforddi 20,000 o unigolion ynglŷn â sut i fynd i'r afael â masnachu anghyfreithlon mewn bywyd gwyllt. Pleser hefyd fu lansio pennod newydd yn hanes United for Wildlife yn America Ladin – ein seithfed yn fyd-eang – a chynnal Uwchgynhadledd United for Wildlife yn Singapore ym mis Tachwedd.

Yn y Sefydliad, credwn fod cynorthwyo cymunedau yn hollbwysig er mwyn eu galluogi i ffynnu. Yn 2023, aethom ati i sefydlu prosiectau Effaith Gymunedol a oedd yn anelu at wneud gwahaniaeth gwirioneddol a pharhaol trwy gynorthwyo cymunedau i ddatrys heriau y daethant hwy eu hunain o hyd iddynt.

Mae'r prosiectau'n amrywiol, ond maent yn rhannu nod cyffredin – sef dwyn pobl ynghyd a galluogi cymunedau i weithredu ar faterion fel caethiwed a thrais ymhlith pobl ifanc. Er enghraifft, llwyddodd ein gwaith ym Manceinion i ddwyn ynghyd Faer Manceinion Fwyaf, Cyngor Dinas Manceinion a'r sector preifat i greu rhaglen cyflogaeth, sgiliau a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc a oedd mewn

perygl o drais yn y ddinas. Gan weithio gyda Manchester Peace Together Alliance, llwyddodd y prosiect tair blynedd i fynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd trais ieuenctid, a bydd yn arddangos y pethau pwysig a ddysgwyd er mwyn galluogi ein partneriaid ar lawr gwlad i gyflwyno'r fenter ar hyd a lled Manceinion a thu hwnt.

Wrth i ddiwedd y flwyddyn nesáu, cynhaliodd Tywysoges Cymru ei thrydydd Gwasanaeth Carolau Nadolig blynyddol ar Noswyl Nadolig, a ddarlledwyd ar ITV. Mynychwyd y gwasanaeth gan 1,600 o unigolion ysbrydoledig o bob cwr o'r DU – unigolion sy'n gweithio'n ddiflino i gynorthwyo plant ifanc yn ein cymdeithas.

Ochr yn ochr â'r gwasanaeth yn Abaty Westminster, cynhaliwyd 12 o ddigwyddiadau eraill ledled y DU, a gwyliodd mwy na thair miliwn o bobl y gwasanaeth ar ITV ar Noswyl Nadolig, gan ddwyn y genedl ynghyd i ddathlu grym cymuned.

Ni fyddai'r uchod wedi bod yn bosibl heb ymroddiad a thalent pawb sy'n gysylltiedig â'r Sefydliad – o'r unigolion a'r sefydliadau partner ysbrydoledig y gallwn ymfalchïo mewn gweithio gyda nhw, i'n staff hynod weithgar. Hefyd, rydym yn lwcus dros ben o allu elwa ar ddoethineb ac arweiniad ein Bwrdd Ymddiriedolwyr, sy'n parhau i'n hysgogi wrth inni geisio esgor ar newid parhaol.

Yn olaf, wrth inni edrych yn llawn cyffro tua'r dyfodol, hoffem ddiolch o galon i Dywysog a Thywysoges Cymru am gryfder eu gweledigaeth a'u hymrwymiad, sy'n parhau i alluogi'r Sefydliad i gyflawni cymaint.

Yr Arglwydd Hague o Richmond
Cadeirydd



Amanda Berry OBE
Prif Weithredwr